



Cylch Meithrin Tonnau Bach

GWYBODAETH CYFFREDINOL

Mae Tonnau Bach yn ddarpariaeth newydd yn Ninbych y Pysgod yn dilyn sefydlu Ysgol Gymraeg Hafan y Môr yn y dref ym Medi 2016. Mae'r galw am addysg Gymraeg wedi cynyddu a niferoedd yr ysgol yn tyfu bob tymor. O ganlyniad i'r galw yma am addysg gynradd Gymraeg mae Cylch Ti a Fi eisioes wedi cael ei sefydlu yn yr ysgol ac yn boblogaidd iawn gyda rhieni a phlant oed cyn –ysgol. Yr ydym drwy Tonnau Bach felly yn ymateb i'r galw am ddarpariaeth gofal ac addysgiadol i blant 2 – 3 oed.

Mae Mudiad Meithrin yn ddarparwr gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Pwyllgor o wirfoddolwyr sydd wedi ymaelodi a Mudiad Meithrin sy'n darparu'r gwasanaeth yma o fewn Ysgol Hafan y Môr. Gelwir y ddarpariaeth gofal dydd yma yn Cylch Meithrin Tonnau Bach. Mae'r ddarpariaeth yn dilyn canllawiau'r Mudiad ac mewn cysylltiad cyson gyda Swyddog Cefnogi'r Sir. Mae'r ddarpariaeth hefyd wedi ei gofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) ar rif uchafswm o blant y gellir eu gofalu amdanynt yw 19.

Blaenoriaeth Tonnau Bach yw hapusrwydd a diogelwch pob plentyn – cynigir y gofal gorau posib mewn awyrgylch hapus a chartrefol, y cyfle i bob plentyn ddysgu trwy chwarae ac i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae'r ystafell lle cynhelir y ddarpariaeth yn cynnwys offer, teganau ac adnoddau sy'n adlewyrchu anghenion, datblygiad ac oedran y plant. Cyflwynir gweithgareddau i blant 2 oed a throsodd, sy'n hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen 3-7oed (y cwricwlwm blynnyddoedd cynnar cenedlaethol) er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cychwyn gorau posib ymhob agwedd o'u haddysg. Byddwn yn rhoi sylw manwl i gynllunio gweithgareddau allanol er mwyn cynnig cyfleoedd a gosod pwyslais ar weithgareddau ysgogol i blant yn yr awyr agored.

Staff –

Mae staff cymwys a phrofiadol yn gyfrifol am sicrhau fod pob plentyn yn derbyn gofal a sylw tyner a phriodol. Mae rhaglen o ddatblygiad personol parhaus mewn lle i sicrhau fod pob aelod o staff yn datblygu eu sgiliau er mwyn sicrhau gofal ac addysg o safon uchel.

Mae'r staff felly yn mynychu cyrsiau hyffoddiant yn gyson (yn cynnwys Cymorth Cyntaf, Diogelu Plant ac Hylendid Bwyd) a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen, Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant Sir Benfro.

Mae pob aelod o staff â thystysgrif GDG cyfredol (Gwasaneth Datganiad a Gwahardd)

Mae trefniadau staffio'r Cylch yn cydymffurfio a rheoliadau'r AGC, fe fydd y nifer cymwys o staff i bob plentyn yn ystod pob sesiwn sef 1 : 4 plentyn 2 oed ac 1 : 8 plentyn 3 oed.

Arweinydd -	Angharad Davies - NVQ 3
Dirprwy -	Emma Rossiter – NVQ 3
Cynorthwy-ydd -	Jess Prince

Nod ac Amcanion

Nod Tonnau Bach yw rhoi cyfle i bob plentyn fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn credu bod chwarae yn sylfaenol i ddatblygiad plant yn gorfforol, yn emosiynol, yn ieithyddol, yn gymdeithasol ac yn ddeallusol. Byddwn yn sicrhau pob cyfle posibl ar gyfer dysgu trwy chwarae. Rydym yn darparu gofal ac addysg i blant 2 oed hyd at oed ysgol o dan ofal staff cymwys a phrofiadol mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig. Mae hapusrwydd pob plentyn yn flaenoriaeth i ni. Caiff pob plentyn gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fydd yn hybu pob agwedd o'i ddatblygiad mewn awyrgylch hapus a diogel.

Gwasanaethau a Gynigir .

Plant 2 oed. Cylch Meithrin Tonnau Bach – Sesiwn Bore

Bydd y Cylch Meithrin boreol ar agor i blant 2 oed, am sesiynau o 3 awr bob Bore Llun – Gwener o 9:00yb – 12:00yp, dros 39 wythnos y flwyddyn heblaw am y Gwyliau Banc, ac yn unol â gwyliau ysgol Cyngor Sir Benfro. Rhoddir rhybudd yngylch diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd.

Codir tâl o £10.00 y sesiwn. Gall y sesiynau hyn fod yn hyblyg o ran diwrnodau ond i'w trafod gyda'r arweinydd o flaenllaw. Rhaid talu am ddiwrnodau yn absenol o'r Cylch oni bai am absenoldeb oherwydd salwch hir. Rhoddir byrbryd iachus yn cynnwys llaeth neu ddwr i'r plant yn ystod y sesiwn.

Clwb cinio – Mae clwb cinio ar gael i'r plant dwy oed 12 – 1.00 Tal y sesiwn yw £3.00

- Gofynnir i'r plant ddod a phecyn bwyd neu gellir prynu cinio ysgol am gost o £2.25

Plant 3 oed. – Sesiwn Prynhawn

Bydd y sesiwn prynhawn ar gyfer plant tair oed Tonnau Bach ac yn rhedeg o 1.00 - 3.05 yp ac yn darparu gofal ar gyfer y plant 3 oed a fydd yn mynychu'r ysgol yn y bore. Mae cinio ysgol ar gael i'r plant os dymunir. Mae dwr i'w yfed ar gael i'r plant bob amser.

Y tâl wythnosol am y sesiynau prynhawn yw £35, neu £7 yn ddyddiol.

Bydd ffioedd y ddarpariaeth yn cael ei anfonebu yn wythnosol. Cynghorir rhieni i drafod unrhyw faterion ynghlyn a thalu'r ffioedd gyda'r arweinydd Miss Angharad Davies.